Prifysgol Bangor

YSGOL ASTUDIAETHAU TRWY'R GYMRAEG

Dyddiad	:	31 Ionawr 2007
Lle	:	Siambr y Cyngor
Presennol	:	Yr Athro Densil Morgan (Cadeirydd), Dr. Keith Hughes, Ms Meri Huws, Mr. David James, Mrs. Bethan Llwyd Jones, Mrs. Bethan Wyn Jones, Dr. Llion Jones, Dr. Gwyn Lewis, Mrs. Delyth Murphy, Mrs. Delyth Prys, Mrs. Gwerfyl Wyn Roberts, Yr Athro Thomas Watkin, Dr. Cen Williams, Mr. Emyr Roberts (cofnodion).
Ymddiheuriadau	:	Dr. Jason Walford Davies, Mrs. Eleri Hughes, Mrs. Elen Huws, Mr. Dewi Wyn Jones, Dr. Delyth Morris, Mrs. Mairwen Owen, Mr. Huw Powell, Mrs. Carys Wyn Roberts, Dr. Enlli Thomas, Dr. Einir Young.

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd Mrs. Bethan Llwyd Jones, Cymrawd Dysgu yn yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd, i'w chyfarfod cyntaf o'r Ysgol.

2. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Ysgol a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2006 fel cofnod cywir.

3. MATERION YN CODI

1. Eitem 3(1) Bwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg.

Cylchredwyd aelodaeth y Bwrdd i aelodau'r Ysgol. Nodwyd y bydd statws Prifysgol Cymru yn newid yn y Gwanwyn gyda'r elfen ffederal yn diflannu. Mae 4 sedd wag ar gyfer aelodau cyfetholedig.

2. Eitem 3(4.2) – Neuadd John Morris Jones

(1) Adroddwyd fod ymateb wedi'i dderbyn gan y Cyfarwyddwr Ystadau am y cwynion am lanweithdra y Neuadd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Eglurwyd y sefyllfa ynglŷn â'r glanhawyr a'u defnydd ar safle'r Ffriddoedd.

(2) Nododd yr aelodau fod y glanhawyr yn gwneud gwaith da ond fod angen hefyd pwysleisio nad yw safon y dodrefn ar offer yn yr ystafelloedd unigol yn dda.

(3) Nododd Gerallt Roberts nad yw'r sefyllfa diogelwch yn ddigonol yn JMJ a dylai gael yr un lefel o wasanaeth a safle'r Ffriddoedd.

(4) Mae'n debygol ni fydd unrhyw ddatblygiadau i newid y drefn bresennol yn JMJ am oddeutu 4 mlynedd o dan y Cynllun Adolygu Ystadau. Bydd y gwaith o adnewyddu Neuadd Reichel yn symud ymlaen a bwriedir symud Canolfan Bedwyr yno.

Penderfynwyd fod angen pwysleisio pwysigrwydd Neuadd JMJ fel arf marchnata i ddenu myfyrwyr Cymraeg a dwyieithog a dylid ysgrifennu at yr Is-Ganghellor a'r Cyfarwyddwr Ystadau (Gweithredu DDM/ER).

3. Eitem 5.5(V) – Datblygiadau yn y Colegau

(1) Cylchredwyd adroddiadau am y datblygiadau cyfrwng Cymraeg yn y Colegau Addysg a Dysgu Gydol Oes, Celfyddydau a Dyniaethau a Gwyddorau Naturiol.

Disgwylir ymatebion yn fuan o'r Colegau Busnes, Gwyddorau Cymdeithas a'r Gyfraith a Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw ymateb o'r Coleg Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad.

(2) Nodwyd gan Gerallt Roberts fod Fforwm Ôl-radd Cymraeg wedi'i sefydlu'n ddiweddar gan UMCB a'u bod yn cyfarfod pob pythefnos.

(3) Bydd y Coleg Celfyddydau a'r Dyniaethau yn ystyried sut i farchnata a chyllido modiwlau Lefel 1 sydd yn mynd ar draws yr Ysgolion. Gobeithir ymestyn hyn wedyn i'r Colegau eraill.

Penderfynwyd atgoffa y Coleg Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad i ddarparu adroddiad am eu datblygiadau cyfrwng Cymraeg. (Gweithredu ER).

4. ADRODDIAD TASIG

Adroddwyd gan Meri Huws ar rai eitemau a drafodwyd yn TASIG yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2007.

(i) Anfonwyd ffigyrau cofrestriadau myfyrwyr i HESA fis Tachwedd ac roeddent yn dangos cynnydd o 6% ar gyfer siaradwyr Cymraeg am 2005/06 gyda chynnydd o 24 CALL.

(ii) Mae Dr. Llion Jones yn gweithio ar y Cynllun Iaith ac wedi mapio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sefydliad. Bydd hyn yn sail i'r Cynllun Iaith Academaidd.

(iii) Derbyniwyd ceisiadau am Ysgoloriaethau a Chymrodoriaethau fel a ganlyn:

Ysgoloriaethau

Ysgol Cerddoriaeth
Ysgol Cemeg
Ysgol Gwyddorau Cymdeithas
Mae angen Ysgol y Gyfraith gais yn dod ymlaen ers y llynedd.

Cymrodoriaethau Galwedigaethol

Ysgol yr Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol
Ysgol Gwyddorau Biolegol

Cymrodoriaethau Academaidd

Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau
Canolfan Genedlaethol Diwydiannau Creadigol

Roedd y Cyngor Cefn Gwlad hefyd wedi cefnogi 12 myfyriwr israddedig eleni.

(iv) Cynhaliwyd cynhadledd yn Aberystwyth wythnos ddiwethaf ar hyfforddi athrawon cyfrwng Cymraeg a chynrychiolwyd y Brifysgol gan Dr. Llion Jones a Dr. Gwyn Lewis. Comisiynwyd London Economic Wales i ddarparu adroddiad pellach ar anghenion hyfforddi athrawon cyfrwng Cymraeg i adrodd yn ôl i Ms Jane Davidson erbyn mis Mawrth. Bydd cyfle i ymateb i'r adroddiad.

(v) Bydd newid y flwyddyn nesaf yn y dull o gyllido modiwlau cyfrwng Cymraeg. Derbyniwyd diffinio'r trothwy yn nhermau credyd a gosod y trothwy cymhwyster lleiaf ar 2 gredyd, sef 20 o oriau dysgu tybiannol.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd casglu'r wybodaeth ar fodiwlau cyfrwng Cymraeg a gofynnwyd i'r aelodau atgoffa eu hysgolion am hyn.

(vi) Roedd y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wedi ystyried adroddiad Arad cyn diwedd yr haf y llynedd ac eu bod wedi cefnogi y strwythur rhwydwaith a phenderfynwyd y byddai grŵp yr Is-Ganghellorion (HEW/ANC) yn dod a Phwyllgor Strategol at ei gilydd, yn cynnwys pob sefydliad yng Nghymru i edrych ar y ffordd ymlaen.

(vii) Yn yr Eisteddfodau eleni bydd stondin gyffredinol yn Eisteddfod yr Urdd Caerfyrddin a stondin fwy ar ffurf pafiliwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Fflint. Gofynnwyd i'r ysgolion ystyried trefnu unrhyw ddigwyddiadau neu lawnsiadau. Bydd digwyddiad gan UMCB i ddathlu eu sefydlu ers 30 mlynedd.

5. SEMINAR DATBLYGU STAFF

Adroddwyd gan Dr. Llion Jones ei fod wedi mynychu cynhadledd datblygu dan arweiniad y Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg yn Llandrindod yn ddiweddar. Nodwyd fod

Prifysgol Aberystwyth wedi sefydlu 'Bord Gron' lle'r oedd staff yn cyfarfod i rannu profiadau.

Penderfynwyd:
(i) gofyn i Dr. Jones holi am wybodaeth bellach am y 'Ford Gron' ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf yr ysgol.
(ii) gofyn i'r Dr. Ioan Matthews roi cyflwyniad i'r Ysgol yn y cyfarfod nesaf. (Gweithredu LLJ).

6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 2.15 o'r gloch, ddydd Llun, 23 Ebrill 2007 yn Siambr y Cyngor.